

BETH SY’N DIGWYDD YN ARDAL ABERTAWE A GŴYR

Mae Pwyllgor Ardal Abertawe Un Llais Cymru yn Bwyllgor sy’n mwynhau cefnogaeth dda ac ym mhob cyfarfod mae’r Cynghorau sy’n bresennol yn rhoi disgrifiad byr o’r hyn sy’n digwydd yn eu cymunedau nhw. Dyma flas o’r gweithgareddau sy’n cael eu cynnal fel ag yr adroddwyd yng nghyfarfod mis Hydref 2016, er gwybodaeth i gynghorau eraill yng Nghymru.

Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf – Ar hyn o bryd yn cynllunio gwasanaeth coffa, trafodaethau wedi dechrau ynglŷn â chaeau chwarae Dan-y-Graig a thrafodwyd datblygu ardal dociau Penclawdd.

CC Pen-rhys – Nid oedd gosod band eang wedi ei gwblhau eto ac roedd tyllau yn y ffordd yn dal i fod yn broblem.

Cyngor Tref Pontarddulais – Roedd dwy goeden Nadolig wedi cael eu plannu. Roedd y Cyngor wedi cytuno i ariannu’r orymdaith Nadoligaidd a choed Nadolig i’r Eglwys.

CT Gorseinon – Adeilad y llyfrgell dal heb gael ei drosglwyddo a’r cytundeb CCTV heb ei lofnodi eto. Rhoddwyd grant o £50k ar gyfer parc sglefrio. Roeddent yn chwilio am grantiau i gael diffibrilwyr cymunedol ac os yn llwyddiannus, byddai hynny’n golygu fod 15 peiriant o’r fath o fewn y dref. Cafwyd grant gan ASDA i’r orymdaith Nadolig.

CT Llŵchwr - Yn ddiweddar cafwyd llifogydd yn llawr isaf y neuadd ac roedd hynny wedi effeithio ar y system wresogi. Roedd cystadleuaeth golau Nadolig yn y tai wrthi’n cael ei threfnu.

CC Llangyfelach - Roedd dal i fod problemau gyda throsglwyddo tir grŵn y pentref. Roedd problem staff DVLA yn parcio’u ceir yn dechrau gwella. Roedd y wefan yn cael ei dylunio ac roedd cynlluniau yn eu lle ar gyfer dathliadau’r Nadolig.

CC y Mwmbwls – Mae siop newydd gan y Co-op yn agor yn y dyfodol agos ynghyd â bwyty newydd. Byddai goleuadau a choed Nadolig ar gael o 24 Tachwedd a bydd band yn chwarae ar grŵn y pentref.

CC Cilâ - Enillodd y Cyngor wobwr gyntaf yn adran gymunedol cystadleuaeth Abertawe yn ei Blodau. Cynhaliwyd noson band a Chymanfa Ganu yn y ganolfan siopa yn ystod gŵyl banc mis Awst.

CC Three Crosses - Roedd y Cyngor yn gwneud cais am grant i gael diffibriliwr. Roedd llwybr hanes y pentref yn cael ei gynllunio. Roedd yr ymchwiliad i grŵn y pentref ar fin dechrau.

CC Reynoldston - Roedd swper cynhaeaf yn cael ei drefnu. Byddai cwmni drama Gŵyr yn perfformio am 3 noson. Roedd ffair grefftau’n cael ei threfnu. Roedd pryderon am ddeiliaid cartrefi gwyliau yn rhoi eu sbwriel allan ar y diwrnodau anghywir.

CC Penllergaer– Roedd diffibriliwr wedi cael ei archebu gydag arian a godwyd drwy ymgyrch leol.